# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 24 Medi 2013
# i'w hateb ar 1 Hydref 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. **Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddiogelu adeiladau hanesyddol? OAQ(4)0060(CS)

2. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam nad oedd enwau aelodau'r panel cyn ymgynghori a aeth i'r gweithdai ar yr adolygiad arfaethedig o ddeddfwriaeth mynediad a hamdden awyr agored ar gael i'r cyhoedd? OAQ(4)0064(CS)

3. **David Rees (Aberafan):** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwella argaeledd rhandiroedd ledled Cymru? OAQ(4)0063(CS)

4. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i bysgota fel chwaraeon? OAQ(4)0054(CS)

5. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â mynediad agored i dir a dyfrffyrdd? OAQ(4)0065(CS)

6. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu cyfleusterau chwaraeon ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0066(CS)

7. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu beicio yng Nghymru? OAQ(4)0057(CS)

8. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae'n eu cymryd ynghylch ein treftadaeth grefyddol? OAQ(4)0055(CS)

9. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y posibilrwydd o israddio'r pwll nofio rhyngwladol yn Abertawe? OAQ(4)0059(CS)

**10. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0056(CS)

**11. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda rheolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru? OAQ(4)0061(CS)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymestyn gweithgarwch chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol? OAQ(4)0062(CS)

**13. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am godi proffil menywod mewn chwaraeon? OAQ(4)0058(CS)